

Cofnodion Pwyllgor Clwb Mynydda Cymru a gynhaliwyd ar nos Lun, 20 Mai, 2019 yn Ystafell Siabod, Plas y Brenin, Capel Curig

Presennol: Gwyn (GW) Iolo (IPR), Eryl (EO), Dwynwen (DP), Iolo (ap Gwynn) (IAG), Dilys (DAP), Steve (SW), Iona (IE), Eirwen (EW), Richard (RR)

Ymddiheuriadau: Raymond, Dewi, Gareth

1.	<p><u>COFNODION</u></p> <p>Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14eg Ionawr, 2019 fel rhai cywir.</p> <p><u>Eitem 7 Canllawiau/rheolau ar gyfer teithiau preswyl Clwb Mynydda Cymru</u></p> <p>Adroddodd EO ei fod wedi cylchredeg y canllawiau yn dilyn y cyfarfod diwethaf a'u diwygio i nodi mai'r unig amgylchiad y gellir ad-dalu aelod sy'n canslo yw pe bai'r hostel/gwesty yn barod i ad-dalu'r arian neu fod aelod arall yn cymryd ei le.</p>
2.	<p><u>MATERION ARIANNOL</u></p> <p><u>Sefyllfa Ariannol</u></p> <p>Cafwyd diweddariad gan DAP ynglŷn â sefyllfa gyfredol y tâl aelodaeth</p> <p>Adroddodd</p> <ul style="list-style-type: none">• bod 284 o aelodau, 226 wedi talu'n llawn a 58 wedi talu £15• y byddai'n ysgrifennu at y 58 oedd yn dal i dalu £15, at ddiwedd y flwyddyn, i'w hysbysu y bydd eu haelodaeth yn dod i ben oni bai eu bod yn cynyddu eu tâl i £20• bod £6000 yng nghyfrif banc y Clwb ond disgwylir i'r ffigwr yma ostwng wedi gwneud y taliadau ynghlwm â dathliadau'r 40 <p>Cytunwyd</p> <p>derbyn yr adroddiad ac y dylid ysgrifennu ar ddiwedd y flwyddyn at yr aelodau hynny fydd yn dal i dalu'r hen dâl aelodaeth yn nodi y byddai eu haelodaeth yn dod i ben yn unol â phenderfyniad blaenorol y pwyllgor</p> <p><u>Cerdyn Talu Banc</u></p> <p>Adroddodd DAP ei bod bellach wedi derbyn cerdyn debyd ar gyfer cyfrif banc y Clwb a fydd yn hwyluso ei gwaith yn arw.</p> <p><u>Cais am Statws elusennol i'r Clwb</u></p> <p>Adroddodd DAP y byddai'n hel llofnodion yr aelodau ar ddiwedd y cyfarfod. Byddai hyn yn caniatáu iddi gwblhau y cais i gofrestru'r clwb fel elusen gyda'r Comisiynydd Elusennau yn y dyfodol agos. Nid oedd yn rhy obeithiol y byddai'r cais yn llwyddiannus gan na chredai fod cyfansoddiad presennol y Clwb yn cwrdd â gofynion y Comisiynydd. Yn y tymor hir ni fyddai hyn yn rhy broblemus gan fod gan y Comisiynydd gyfansoddiad model y gellid ei addasu ar gyfer y Clwb a fyddai hefyd yn rhoi gwell gwarchodaeth i aelodau'r pwyllgor fel ymddiriedolwyr yr elusen.</p> <p>Cytunwyd</p> <p>Cymeradwyo gwaith DAP yn y maes yma a nodi y bydd adroddiad pellach ar hyn pan fydd penderfyniad y Comisiynydd Elusennau ar y cais yn hysbys.</p> <p>Yn sgil y sylwadau ar gyfansoddiad model y Comisiynydd, dylai'r pwyllgor ystyried (beth bynnag fydd canlyniad y cais) argymhell i'r aelodaeth y dylid ei fabwysiadu er mwyn sicrhau bod gan y Clwb gyfansoddiad addas sy'n cwrdd a gofynion cyfoes</p> <p>Diolch i DAP am ei holl waith yn paratoi'r cais ar ran y clwb</p>

<p>3.</p>	<p><u>Tâl Aelodaeth a Thanysgrifiadau CMP</u></p> <p>Adroddodd GW y bu'n gohebu gyda Chadeirydd a Phrif Weithredwr y CMP wedi i'r pwyllgor gael ar ddeall eu bwriad i godi lefel eu tanysgrifiadau ac yn ddiweddarach fe gafodd ymweliad gan y Prif Weithredwr. Cafodd ar ddeall fod yn rhaid i'r CMP gynyddu eu tanysgrifiadau yn dilyn damwain ddringo a arweiniodd i anafiadau difrifol a olygai y byddai'n rhaid i'w polisi yswiriant wneud taliad sylweddol iawn. Byddai hyn yn anorod yn arwain i breimiwm yswiriant y CMP yn codi ac roedd yn rhaid iddynt gynyddu eu tanysgrifiadau i gwrdd â hynny. Roeddynt wedi datgan y byddai'r tanysgrifiad yn codi i £20.25 o Ionawr 2020 yn y lle cyntaf ond oherwydd y sefyllfa ddifrifol gyda'r hawliad yswiriant, roedd yna debygolrwydd cryf y byddai'n rhaid iddynt ei gynyddu eto yn fuan</p> <p>Yn sgil y ddamwain a ddigwyddodd roedd disgwyl y byddai cyfarwyddiadau a chanllawiau yn dod gan y CMP yn cynghori clybiau sut y dylent drefnu eu gweithgareddau a pha gamau y dylent eu cymryd i leihau risg yn deillio o'u gweithgareddau, megis paratoi asesiadau risg ac ati.</p> <p>Yn y drafodaeth_ar y pwnc nodwyd y canlynol</p> <ul style="list-style-type: none"> • fod y sefyllfa gyfredol yn ansicr gan na wyddys beth fydd tanysgrifiadau 'r CMP yn y tymor hir gyda'r posibilrwydd cryf y bydd codiadau pellach yn 2021 • mai ond newydd godi i £20 oedd tâl aelodaeth y Clwb. Dim ond 25c y pen fyddai'r Clwb ar ei golled yn 2020 pe byddai yn penderfynu peidio cynyddu tâl aelodaeth yn y tymor byr • O beidio cynyddu'r tâl yn 2020, nododd y Trysorydd bod arian wrth gefn gan y Clwb yn y banc i ysgwyddo'r golled fechan ac i gwrdd â chostau gweinyddol o redeg y Clwb ond byddai'n rhaid bod yn wylidwrus ar unrhyw wariant ychwanegol <p>Cytunwyd</p> <p>i. na fydd y Clwb yn codi'r tâl aelodaeth yn 2020 ac y bydd yn ysgwyddo unrhyw golled yn deillio o'r cynnydd yn nghanysgrifiad y CMP o Ionawr 2020</p> <p>ii. nodi ei bod yn anorod y bydd yn rhaid i'r tâl gynyddu, mwyaf tebyg o 2021 ymlaen, pan fydd y sefyllfa yn gliriach i gwrdd â lefel uwch y tanysgrifiadau i'r CMP</p> <p>iii. y dylid dechrau hysbysu'r aelodaeth o'r newidiadau sydd ar y gweill drwy ohebiaeth ac yn y Cyfarfod Blynyddol</p> <p>iv. Dylai'r pwyllgor yn ei gyfarfod nesaf ystyried a ddylai baratoi asesiadau risg ar gyfer teithiau</p>
<p>4.</p>	<p><u>DARLITH EISTEDDFOD GENEDLAETHOL 2019</u></p>
<p>5.</p>	<p>Adroddodd DP fod trefniadau wedi eu gwneud i Huw Brassington draddodi'r ddarlith yn yr Eisteddfod eleni. Bydd y ddarlith yn cael ei chynnal ar nos Wener, 9fed Awst, am 6 o'r gloch ym Mhabell y Cymdeithasau 1 a'i theitl fydd "Y Gader Siglo". Cytunodd Huw hefyd i ddod i stondin y Clwb am dri o'r gloch ar brynhawn y ddarlith, Bydd yn cysylltu hefo Maldwyn i drefnu cynhyrchu poster i ar gyfer y ddarlith</p> <p>Cytunwyd</p> <ul style="list-style-type: none"> • diolch i DP am wneud y trefniadau • gofyn i EO gael gair hefo Huw i drafod ei dreuliau.
<p>5.</p>	<p><u>DATHLIADAU PEN-BLWYDD Y CLWB YN 40 YN 2019</u></p> <p>Aethpwyd dros gofnodion cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ar 11eg Chwefror 2019 i gael diweddiariad a gweld pa gamau pellach mae angen eu cymryd</p> <p>Costau/Partneriaid</p> <p>Adroddwyd fod y 3 corff bellach wedi gwneud cyfraniad ariannol ac y byddant yn rhannu'r stondin hefo'r Clwb. Cafwyd cyfarfod hefo cynrychiolwyr y 3 corff cyn y cyfarfod heno</p> <p>Cefnogaeth Ariannol Arall</p> <p>Yr unig gais na wnaed penderfyniad arno hyd yn hyn yw cais gan GW i Gronfa Degwm Conwy. Bu'r y ceisiadau eraill i gyd yn aflwyddiannus</p>

Paratoi'r Uned

GW cadarnhau y byddai'n trefnu cyflenwad o fyrddau, seddau ac ati yn lleol a chriw o aelodau lleol i helpu i osod y stondin ar y dydd Sadwrn cyntaf

Cadarnhaodd GW y byddai Gareth Wyn a Gareth 'Rynys yn adeiladau'r paneli ac y byddent yn gwneud hynny ar y safle. Gareth 'Rynys yn trefnu archebu deunydd

DP trefnu baner blastig 1mx4m i'w gosod ar y fynedfa i'r stondin

GW i holi Maldwyn ynglŷn â dylunio 2 x pop ups. GW & DP i drefnu archebu

Teledu – GW wedi trefnu benthyg teledu oddi wrth siop Ymchwil y Galon yn Llandudno. Gellid defnyddio pren USB i ddangos lluniau arni.

EO & IAG i drefnu cael poster hefo holl weithgareddau'r Clwb yn ystod yr wythnos i'w roi fyny ger y fynedfa i'r stondin ac ar y wefan

Lluniau

Gofyn i Aneurin, Myfyr, Alun Hughes (Fachwen) os oes ganddynt luniau gallent roi ar USB.

IAG i drefnu lluniau o gyfrif Flickr y Clwb ar bren USB

Dylent yrru eu lluniau i DAP & Aneurin

Aneurin i weld os yn bosib cael yr holl luniau ar un pren USB er hwylustod

Gofyn i Aneurin os y gallai fynd hefo GW i nôl y teledu a thrio y USB arni

DAP i drefnu y bydd cyflenwad o ffurflenni ymaelodi â'r Clwb ar gael ar gyfer y stondin

GW yn trefnu y bydd cyflenwad o'r llyfr Copaon Cymru ar gael yn y stondin

Yswiriant

Dim yn ymarferol trefnu felly dylid talu £100 i'r elusen os digwydd unrhyw niwed i'r teledu neu £50 os ddim

Rhaglen

EO yn gobeithio paratoi rhaglen gynhwysfawr o weithgareddau hyd at y Dolig i hyrwyddo'r Clwb.

Dylid trefnu chwyddo'r rhaglen fel y gellir ei rhoi fyny yn y stondin.

Gweithgareddau

Aneurin wedi trefnu cystadleuaeth adnabod lluniau mynyddoedd

Cytunwyd y dylid cael taflen hefo 16 o luniau a gofyn i Maldwyn drefnu argraffu cyflenwad o daflenni

EW i drefnu cyfres o weithgareddau i wahanol oeddrannau o blant

Dylid cael gwobrwyon ar gyfer y cystadlaethau. EW wedi holi a chael addewid gan Joe Brown a Chrib Goch yn Llanberis. GW i holi Cotswolds am gyfraniad.

Cytunwyd y bydd enwau pawb fydd yn gwneud y gwahanol weithgareddau yn cael eu rhoi mewn bag a'r enwau'n cael eu tynnu a chyflwyno gwobrwyon yn ystod y dathliad swyddogol ar y dydd Gwener

Y Babell Lên

Adroddwyd fod trefniadau mewn lle ar gyfer y sgwrs yn y Babell Lên ar y dydd Llun

Dathliad Swyddogol

DP i drefnu gwin a 100 o wydrau plastig

GW wedi trefnu hefo bragdy lleol i gael cyflenwad o boteli cwrw @ £2.20 yr un. Bydd y bragdy yn cymryd y poteli heb eu defnyddio yn ôl

IE yn trefnu cacen o Sgilicons am £25

Taith Clwb

EO yn adrodd ei fod wedi trefnu y bydd taith y Clwb yn ystod yr wythnos ar y cyd hefo taith yr Eisteddfod dan arweiniad Huw Prys. Bydd daith yn ardal Nant Bwlch yr Heyrn a llynnoedd Crafnant a Geirionydd.

Tocynnau

GW yn adrodd ei fod wedi derbyn 21 o docynnau gan yr Eisteddfod (5 tocyn wythnosol a'r gweddill yn rhai dyddiol)

Roedd yn argymhell eu dosbarthu fel a ganlyn:

12 tocyn ar gyfer yr unigolion hynny sy'n gyfrifol am y stondin yn ddyddiol

1 tocyn i Huw Brassington ar gyfer diwrnod y ddarlith

3 x tocyn wythnosol i'r 3 corff sy'n rhannu'r stondin

1 x tocyn wythnosol i GW

1 x tocyn wythnosol i EO

A fyddai'n gadael 3 yn sbâr

Cytunwyd ag argymhellion GW ynglŷn â dosbarthiad y tocynnau

Taith Caernarfon – Llanrwst

Adroddodd DP ei bod wedi trefnu'r daith ac wedi paratoi amserlen ar ei chyfer. Bydd hyn yn caniatáu i bobl ymuno â'r daith mewn gwahanol lefydd yn ystod y dydd os dymunant yn hytrach na gorfod ei cherdded i gyd.

Oherwydd bod safle'r Eisteddfod bellach wedi ei symud roedd yn ystyried newid cyfeiriad y daith o Fetws y Coed i'r safle newydd yn Llanrwst a fydd o bosib yn ei gwneud ychydig yn fyrrach. Wedi gwneud hyn byddai yn addasu'r amserlen

Cytunwyd derbyn y wybodaeth a diolch i DP am ei holl waith

Mynyddoedd Pawb

Adroddodd EO bod ymgyrch Mynyddoedd Pawb wedi bod yn gweithio ar ddarparu ap yn enwi mynyddoedd ac roeddynt wedi cychwyn hefo Bryniau Dyffryn Clwyd a fydd yn cael ei lansio yn Llangollen ar 21 Mehefin. Roeddynt hefyd yn awyddus i'w lansio yn yr Eisteddfod

Cytunwyd cynnig slot o chwarter awr i Fynyddoedd Pawb lansio eu ap yn yr Eisteddfod yn stondin y Clwb ar y prynhawn dydd Gwener cyn y ddarlith

Stiwardio'r Uned

Adroddodd GW y byddai'r canlynol yn gyfrifol am stiwardio'r uned yn ystod yr wythnos

Dydd Sadwrn Dilys & Aneurin

Dydd Sul Steve

Dydd Llun Dwynwen

Dydd Mawrth Iolo (aG) & Anet

	<p>Dydd Mercher Raymond G Dydd Iau Eirwen & Alun Dydd Gwener Richard a Sw Dydd Sadwrn Iolo R</p> <p>Byddai gan y 3 partner swyddog yn y stondin pob dydd</p> <p>Argymhellodd y dylid cael rhagor o aelodau i helpu fel y gallai'r uchod gael seibiant o'r stondin</p>	
6.	<u>CYFARFOD BLYNYDDOL 2019</u>	
	<p>Cytunwyd y dylai IPR wneud ymholiad gyda gwesty Fictoria, Llanberis i gynnal y Cyfarfod Blynyddol yno ar ddydd Sadwrn y 9fed o Dachwedd</p> <p>GW i holi Gareth Pierce os byddai'n fodlon bod yn ŵr gwadd, ond gan bydd trafodaeth am y CMP yn y cyfarfod a Gareth yn gadeirydd y corff hwnnw, dylid ei gynnwys fel rhan o'r cyfarfod yn hytrach na chael slot ar wahân iddo</p> <p>Dylid estyn gwahoddiad i griw'r De ymuno ar y daith a'r Cyfarfod Blynyddol a chynnig hefyd y gellid trefnu taith fer iddynt ar y dydd Sul. Dylid gofyn iddynt hefyd osgoi trefnu taith yn y de ar ddiwrnod y Cyfarfod Blynyddol</p>	
7.	<u>CYNLLUNIO RHAGLEN WEITHGAREDDAU'R CLWB</u>	
	<p>Diwrnod Blasu</p> <p>Adroddodd EO y cynhaliwyd 3 taith blasu ar ddydd Llun 6ed Mai 2019 a'u bod yn llwyddiannus eto eleni yn rhoi cyfle i nifer o bobl (oedolion a phlant) gael blas o fod allan ar y mynyddoedd.</p> <p>Byddai'n trefnu rhaglen o weithgareddau hyd at Ragfyr i fod yn barod erbyn yr Eisteddfod</p>	
8.	<u>MATERION CMP</u>	
	<p>Adroddodd SW mai'r tanysgrifiadau oedd y prif bwnc trafod yn y cyfarfod diwethaf a fynychodd</p> <p>Bod Elfyn Jones wedi holi os byddai rhai o aelodau'r Clwb ar gael i'w helpu i gyfieithu ambell i ddogfen</p> <p>Nodwyd fod nifer o aelodau'r clwb hefo cefndir cyfieithu y gellid gofyn am eu help o fewn rheswm Cyfeiriwyd at Anet, Tegwen, Gwen Evans Rhuthun, RR a EO ymysg eraill.</p> <p>Cytunwyd gofyn i EO anfon e-bost at yr unigolion dan sylw yn gofyn os byddent yn fodlon helpu hefo gwaith cyfieithu ysgafn i'r CMP yn achlysurol</p>	
9.	<u>MATERION Y BARTNERIAETH</u>	
	Dim i'w adrodd	
10.	<u>CYFARFOD NESAF Y PWYLLGOR</u>	
	Cytunwyd y bydd cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar nos Fawrth 24ain Medi, 2019 yng Nghapel Curig os yn bosibl.	